| | |
|---|---|
| **Pwyllgor** | **Y Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad** | **9 Mehefin 2025** |
| **Teitl** | **Sesiynau Hyfforddiant i Gynghorau Cymuned** |
| **Awdur** | **Siôn Huws, Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau** |
| **Pwrpas :** | **Er gwybodaeth** |

**Cefndir**

1. Mae hyfforddi neu drefnu i hyfforddi cynghorwyr cymuned ar faterion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad yn rhan o swyddogaeth statudol y Pwyllgor Safonau. Mae'r Pwyllgor wedi adnabod yr angen i gynnal hyfforddiant o'r fath, ond wedi derbyn bod ei ddarparu wedi bod yn heriol yn ddiweddar fel canlyniad i ddiffyg adnoddau.

2. Mae gennym sesiwn wedi ei baratoi a'i dreialu ar gyfer cynghorau cymuned. Amcan y sesiwn yw galluogi aelodau a chlercod i gael dealltwriaeth o hanfodion y Cod Ymddygiad, arfogi aelodau i weithredu o fewn y fframwaith ac amlygu lle i gael arweiniad a gwybodaeth bellach. Mae'n cynnwys cyflwyniad gyda sleidiau a chyfle i holi cwestiynau a thrafod wedyn.

3. Cynhaliwyd sesiynau rhithiol ar 17/03/25 a 28/03/25 am 18:30**.** Roedd y cyflwyniad drwy'r Gymraeg ond gyda chyfieithu ar y pryd i'r Saesneg yn cael ei ddarparu ar gyfer y cyflwyniad a'r drafodaeth.

4. Oherwydd cyfyngiadau ymarferol ar y nifer all fynychu, yn enwedig o safbwynt caniatáu holi a thrafod, a'i bod yn anodd rhagweld faint fyddai â diddordeb mynychu, penderfynwyd gwahodd cynghorau cymuned ardal Arfon yn unig. Estynnwyd y gwahoddiad i aelodau a chlercod.

5. Dros y ddwy sesiwn mynychodd 44 o unigolion yn cynrychioli 9 o'r 17 cyngor cymuned yn ardal Arfon.

6. Atodir braslun o'r cyflwyniad er gwybodaeth.

7. Fe gynhelir sesiynau pellach y flwyddyn hon , a byddwn hefyd yn recordio cyflwyniad a'i osod ar wefan Cyngor Gwynedd fel bod modd ei wylio ar unrhyw adeg.

**Argymhelliad**

8. Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r wybodaeth.